# CYNNIG MEWNGYMORTH YSGOLION CYNRADD

*Mae'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yn rhan o ddarpariaeth Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Rydym yn ymarferwyr iechyd meddwl a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ochr yn ochr â chymunedau ysgol i ddarparu ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol. Mae'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yn gweithio gyda lleoliadau addysg ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg.*

## 1. ADNODDAU

### ADNODDAU PONTIO AC ADNODDAU SY'N YMWYBODOL O DRAWMA

Taflenni gwybodaeth i gefnogi dysgwyr, rhieni ac ysgolion gyda phontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, ynghyd ag adnoddau sy'n cynnig awgrymiadau ar weithio mewn ffordd sy'n ymwybodol o drawma yn yr ystafell ddosbarth.

### FIDEOS BYR

Cyflwyniadau byr, wedi'u recordio ymlaen llaw, i bynciau lles emosiynol ac iechyd meddwl ar gyfer staff addysg.

Rydyn ni'n cyfieithu ein fideos byr i'r Gymraeg — diweddariad yn dod yn fuan!

**Gwyliwch y fideo hwn i ddysgu mwy am y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion a sut rydym yn gweithio gydag ysgolion yng Nghaerdydd a'r Fro**




Am gyngor pellach a chyfeirio (a chyrchu adnoddau), sganiwch y cod QR i gael mynediad i'n gwefan:
**Mewngymorth Ysgolion - CYPF Cymraeg**

Y ffordd orau o gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yw trwy gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr tymhorol - sganiwch y cod QR uchod i gofrestru neu ewch i:
**https://forms.office.com/e/yCng5JH60S**

**Mae pob aelod o staff ysgol gynradd yn gallu cofrestru i fynychu ein hyfforddiant tymhorol wyneb yn wyneb. I gael gwybod mwy, anfonwch e-bost at: schoolinreach.cav@wales.nhs.uk**

## 2. HYFFORDDIANT

- Gwreiddio PACE yn yr ystafell ddosbarth
- PACE ar waith
- Ymateb i ymddygiad gyda dwy law
- Ymdopi a Diwedd Cyfnod a Phontio yn Effeithiol
- Deall a Ymateb i Drallod

Gellir gofyn i'r hyfforddiant a restrir gael ei ddarparu wyneb yn wyneb yn eich ysgol. Ar ôl yr hyfforddiant, gellir cynnig hyd at ddau slot ymgynghori ychwanegol i ganolbwyntio ar bobl ifanc neu themâu penodol.Gall ein cynnig cyffredinol fod o fudd i bob aelod o staff yn yr ysgol, tra gall hyfforddiant staff wedi'i dargedu fod yn fwy priodol i'r rhai mewn rolau penodol h.y. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, staff bugeiliol, arweinwyr lles, oedolion allweddol.

## 3. GRWPIAU

Rydym yn cynnig gweithdai rhyngweithiol sy'n datblygu sgiliau a gwybodaeth i gydgyflwyno ymyriadau lles emosiynol i ddysgwyr ochr yn ochr â staff y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion. Cysylltwch â ni i gael gwybod mwy!

- Pethau Rhyfedd yw Teimladau
- Coeden Bywyd

### GRŴP DIDDORDEB ARBENNIG

Ar gyfer staff addysg sydd wedi cael cymorth neu hyfforddiant gan y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion ac sydd â diddordeb mewn trafod materion allweddol ysgolion cynradd, rhoi adborth, cyfrannu at brosiectau peilot, ac aros yn gyfredol â'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn cael mynediad at unrhyw un o'n sesiynau hyfforddiant rhad ac am ddim ar gyfer eich ysgol, anfonwch e-bost at: schoolinreach.cav@wales.nhs.uk a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi.**

School In-Reach Service – Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion | Emotional Wellbeing & Mental Health – Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl | CYPF Children, Young People & Family Health Services | PPIT Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Teuluol | GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Cardiff and Vale University Health Board